# CABINET

## COFNODION Y CYFARFOD AML-LEOLIAD A GYNHALIWYD YN NHŶ PENALLTA A THRWY MICROSOFT TEAMS DDYDD MERCHER 18 HYDREF 2023 AM 1PM

YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd S. Morgan – Cadeirydd

Y Cynghorwyr:

J. Pritchard (Aelod Cabinet dros Ffyniant, Adfywio a Newid yn yr Hinsawdd), N. George (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Corfforaethol ac Eiddo, Priffyrdd), P. Leonard (Aelod Cabinet dros Gynllunio a Diogelu'r Cyhoedd), C. Morgan (Aelod Cabinet dros Wastraff, Hamdden a Mannau Gwyrdd) ac E. Stenner (Aelod Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad)

Ynghyd â:

C. Harrhy (Prif Weithredwr), D. Street (Dirprwy Brif Weithredwr), R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol) a M.S. Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Economi a'r Amgylchedd).

Hefyd yn bresennol:

R. Tranter (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Swyddog Monitro), S. Pugh (Rheolwr Cyfathrebu), M. Lloyd (Pennaeth Isadeiledd), C. Adams (Rheolwr Grŵp Peirianneg Priffyrdd), S. Wilcox (Rheolwr Datblygu Rhaglen), K. Watkins (Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu â Thenantiaid), H. Jones (Rheolwr Strategaeth a Gweithrediadau Gwastraff), R. Kyte (Pennaeth Adfywio a Chynllunio), N. Taylor- Williams (Pennaeth Tai), J. Roberts-Waite (Pennaeth Strategaeth a Datblygu), A. Bolter (Rheolwr Economi Ymwelwyr a Chyrchfannau), A. Dallimore (Rheolwr Gwasanaethau Adfywio), C. Boardman (Rheolwr Datblygu) a R. Lloyd (Prif Swyddog Rheoli Gwastraff).

Hefyd yn bresennol:

Y Cynghorydd J. Jones (Aelod Ward Lleol).

### TREFNIADAU RECORDIO A PHLEIDLEISIO

Atgoffodd y Cadeirydd bawb a oedd yn bresennol fod y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ac y byddai recordiad ar gael ar wefan y Cyngor, ac eithrio trafodaethau sy'n ymwneud ag eitemau cyfrinachol neu eithriedig. Cliciwch yma i'w wylio.

### 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan C. Andrews (Aelod Cabinet dros Addysg a Chymunedau), S. Cook (Aelod Cabinet dros Dai) a S. Harris (Pennaeth Gwasanaethau Cyllid a Swyddog Adran 151).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

## 3. COFNODION – DYDD MERCHER 20 MEDI 2023

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Medi 2023 fel cofnod cywir.

## 4. BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET – I'W NODI

Darparwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'r Cabinet, a oedd yn nodi'r adroddiadau sydd wedi'u trefnu hyd at 13 Rhagfyr 2023.

Ar ôl ystyried a thrafod, cynigiwyd ac eiliwyd y dylid nodi'r Flaenraglen Waith. Drwy ddangos dwylo, cytunwyd ar hyn yn unfrydol.

## 5. AILDDATBLYGU HEN SAFLE YSGOL GYFUN OAKDALE GAN GARTREFI CAERFFILI

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai a'r Amgylchedd ar 19 Medi 2023 a nododd ymhellach y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a geisiodd gymeradwyaeth y Cabinet i lofnodi'r Cytundeb Cyflawni gyda Willmott Dixon i alluogi gwaith adeiladu datblygiad deiliadaeth gymysg cyntaf Cartrefi Caerffili i ddechrau yn hydref 2023, i geisio cymeradwyaeth i gynnwys cynllun byw bywyd hŷn o fewn datblygiad Oakdale sydd wedi'i gynllunio'n benodol i ddisodli'r Cynllun Tai Lloches (a drefnwyd ar gyfer datgomisiynu) yn Nhŷ Melin ac arwyddo Cytundeb Cyflawni Cyn Adeiladu i ddatblygu ymhellach y gwaith o ddylunio a datblygu elfen byw bywyd hŷn arfaethedig y cynllun a cheisio cymeradwyaeth i lofnodi Cytundeb Cyflawni Cyn Adeiladu i ymgymryd â gwaith ymchwilio i'r safle a datblygu gwaith dylunio safle Tŷ Melin a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gynnwys yn rhaglen ddatblygu Cartrefi Caerffili.

Anerchodd y Pennaeth Strategaeth a Datblygu y Cabinet gan ddarparu trosolwg manwl o'r prosiect. Roedd y Cabinet yn falch o nodi bod y cynhyrchion tai fforddiadwy newydd yn cael eu gwneud yng Nghaerffili gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth.

Diolchodd y Cabinet i'r Swyddog am y cynnig cyffrous a gyflwynwyd.

Yn dilyn ymholiadau dywedodd y swyddog wrth y Cabinet mai trigolion presennol Tŷ Melin oedd rhai o'r rhai cyntaf yr ymgynghorwyd â nhw ar y cynlluniau datblygu a'u bod yn unfryd o ran cefnogaeth ac yn gyffrous am y cynlluniau. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r trigolion yn parhau i fod yn rhan o'r datblygiad.

Dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet fod y Cynllun Gwerth Cymdeithasol yn cael ei ddatblygu i ddarparu cymorth cyflogaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu sy'n cysylltu â chynnig cyfredol y Cyngor mewn perthynas â chymorth cyflogaeth. Ar hyn o bryd mae Cartrefi Caerffili yn gweithio gyda thîm Cyflogaeth y Cyngor i lunio'r rhaglen.

Tynnwyd sylw at y buddsoddiad enfawr y mae'r Cyngor yn ei wneud tuag at safleoedd Oakdale a Thŷ Darran a nodwyd nad yw'r buddsoddiad yn ymwneud â darparu cartrefi yn unig, ond hefyd cyfleoedd o ran cyflogaeth a hyfforddiant.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad ynghylch beth yw ymrwymiad Caerffili i les Cyn-filwyr.

Eglurodd y Swyddog fod Caerffili wedi ymrwymo i weithio gyda Chyn-filwyr ac ar hyn o bryd mae'n gweithio gyda Swyddog Cyfamod y Lluoedd Arfog ac elusen i ddatblygu'r rhan hon o'r Cynllun Gwerth Cymdeithasol.

Cafwyd enghreifftiau o waith yr elusen yn Lloegr, lle maent wedi mynd â Chyn-filwyr drwy raglen o hyfforddiant cychwynnol a hefyd gofal bugeiliol sydd nid yn unig wedi cynorthwyo i sicrhau swyddi i gyn-filwyr a hefyd cartrefi.

Nododd y Cabinet fod Cartrefi Caerffili yn fewnol yn adolygu'r Polisi Dyrannu Cyffredin a'r Gofrestr Tai Cyffredin ar hyn o bryd ac yn gobeithio y bydd Caerffili mewn sefyllfa i gynnig cartrefi i rai o'r Cyn-filwyr digartref pe baent yn cymryd rhan yn y rhaglen.

Mynegodd y Dirprwy Arweinydd ei falchder yn yr adroddiad yn ei gyfanrwydd ond roedd yn arbennig o falch o nodi y bydd pob cartref yn cynnig y lefel uchaf o ynni ac effeithlonrwydd a chysur i'r preswylwyr, a thrwy hynny leihau costau ynni i breswylwyr. Byddai hynny'n plesio cwsmeriaid Cartrefi Caerffili o safbwynt ariannol ond hefyd o safbwynt newid hinsawdd.

Nododd y Cabinet y bydd technoleg a ddefnyddiwyd yng nghynlluniau'r Rhaglen Tai Arloesol yn Nhretomos a Threcenydd i greu cartrefi cost effeithiol yn cael eu defnyddio yn y cynlluniau yn Oakdale a Thŷ Darran. Roedd gofyniad grant fel rhan o'r Rhaglen Tai Arloesol i osod technoleg fonitro drwy'r adeilad, sydd wedi hysbysu Cartrefi Caerffili bod cwsmeriaid yn derbyn biliau ynni o tua £180.00 y flwyddyn. Felly, mae hyn yn dangos bod yr adeilad yn gweithio fel y'i bwriadwyd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog:

1. Cymeradwyo cynnwys elfen byw bywyd hŷn y cynllun a fydd yn golygu bod trigolion Tŷ Melin, Croespenmaen yn adleoli i'r llety newydd ar hen safle Ysgol Gyfun Oakdale a bod safle presennol Tŷ Melin yn cael ei ailddatblygu ar ôl 2025.

2. Cymeradwyo llofnodi'r Cytundeb Cyflawni gyda Willmott Dixon a fydd yn caniatáu i'r datblygiad ddechrau ar y safle ym mis Hydref 2023.

3. Cymeradwyo llofnodi Cytundeb Cyflawni Cyn Adeiladu gyda Willmott Dixon i ymgymryd â'r gwaith dylunio sy'n angenrheidiol i gynnwys y cynllun byw bywyd hŷn i'r safle ehangach a chymeradwyo llofnodi Cytundeb Cyflawni Cyn Adeiladu ar wahân i ymgymryd â'r gwaith ymchwilio a dylunio safle sy'n angenrheidiol i gyflwyno safle Tŷ Melin i raglen ddatblygu Cartrefi Caerffili.

4. Cymeradwyo'r cynnig i ddatblygu Cynllun Gwerth Cymdeithasol a fydd yn ymwneud â'r holl ddatblygiadau a wnaed gan Willmott Dixon yn y Fwrdeistref Sirol. O dan drefniant Fframwaith SCAPE, priodolir 20% o werth y contract i ddarparu gwerth cymdeithasol gan gynnwys rhaglen gyflogaeth helaeth sy'n gysylltiedig ag adeiladu.

## 6. CARTREFI CAERFFILI - AILDDATBLYGU TŶ DARRAN

Nododd y Cabinet fod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Craffu Tai ac Adfywio ar 19 Medi 2023 a nododd ymhellach y sylwadau a wnaed gan y Pwyllgor Craffu.

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i lofnodi'r Cytundeb Cyflawni gyda Willmott Dixon i ddatblygu'r cynllun hyd at adeiladu a chwblhau erbyn Hydref 2025, ac i gymeradwyo creu Cynllun Gwerth Cymdeithasol a fyddai'n cynnwys Tŷ Darran, hen Ysgol Gyfun Oakdale a chynlluniau datblygu Tŷ Melin.

Anerchodd y Pennaeth Strategaeth a Datblygu y Cabinet gan ddarparu trosolwg manwl o'r prosiect. Dywedodd y Swyddog fod y datblygiad blaenllaw hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar gael mannau cymunedol sy'n annog rhyngweithio â'r gymuned ehangach ac yn mynd i'r afael â materion sy'n llawer rhy gyffredin o ran unigedd ac unigrwydd. Bydd meysydd hyblyg hefyd yn cael eu cynnwys a all ddarparu ar gyfer ystod o anghenion, megis gweithio gartref neu ofalu am wyrion ac wyresau. Mae 45 fflat yn y datblygiad i gyd yn cynnwys balconïau i hwyluso mynediad hawdd i awyr iach.

Gofynnwyd am eglurhad a yw cartrefi ynni-effeithlon yn ddrytach i'w hadeiladu. Eglurodd y Swyddog fod popeth yn eithriadol o ddrud i'w ddatblygu ar hyn o bryd, yn enwedig os ydych chi'n creu cartrefi carbon isel sy'n effeithlon o ran ynni. Fodd bynnag, yn y tymor hwy ni fydd angen unrhyw fuddsoddiad pellach ar yr eiddo newydd hyn, fel sy'n wir am y stoc dai bresennol. Bydd hyn yn sicrhau mwy o fuddion i'r tenantiaid o ran ansawdd mewnol a chostau ynni is.

Mewn ymateb i ymholiad dywedodd y Rheolwr Datblygu wrth y Cabinet fod sesiynau ymgysylltu wedi'u cynnal gyda phreswylwyr presennol yn Llys y Castell, Tŷ Waunfawr a Llys y Santes Fair a dangosodd y cynlluniau mewnol ac allanol iddynt. Cafwyd adborth, yn gadarnhaol ac yn negyddol a lle bu pryderon, maent wedi cael eu hystyried ac mae addasiadau wedi'u gwneud.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD am y rhesymau a oedd wedi’u cynnwys yn adroddiad y Swyddog:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a chytuno llofnodi'r Cytundeb Cyflawni gyda Willmott Dixon i gyflawni cynllun byw bywyd hŷn newydd, ynni isel, blaenllaw erbyn gwanwyn 2025.

2. Cymeradwyo llunio cynllun gwerth cymdeithasol a fydd yn cwmpasu Tŷ Darran, cyn Ysgol Gyfun Oakdale a chynlluniau datblygu Tŷ Melin gyda Wilmott Dixon.

**7. CYDWEITHREDIAD RHODFA COEDWIG CWMCARN GYDA CHYFOETH NATURIOL CYMRU – ADOLYGIAD O’R CYTUNDEB A'R CAMAU NESAF**

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn cynnig adolygu'r trefniant cydweithredol gyda Chyfoeth Naturiol Cymru i'r Cyngor reoli gweithrediad Rhodfa'r Goedwig yng Nghoedwig Cwmcarn fel atyniad i ymwelwyr ac ystyried a ddylid ymestyn y cytundeb hwn ai peidio.

Roedd y Cabinet yn siomedig o nodi bod y cyflwyniad i Lywodraeth y DU ar gyfer y cais Ffyniant Bro wedi bod yn aflwyddiannus a gofynnwyd am eglurhad ar sut mae'r Cyngor yn bwriadu lleihau'r cymhorthdal i'r Rhodfa.

Eglurodd Rheolwr yr Economi Ymwelwyr a Chyrchfannau mai’r cynlluniau gweithredol yw lleihau gwariant a sicrhau'r incwm mwyaf posibl, gan barhau â nifer o weithrediadau yn Rhodfa’r Goedwig. Bydd y Cyngor nawr yn canolbwyntio ar y gwaith parhaus.

Nododd y Cabinet fod yr amcangyfrifon diweddaraf yn dangos bod y Cyngor ar y trywydd iawn i gyflawni'r arbedion lleihau cymhorthdal presennol o £75,000 eleni.

Codwyd pryderon ynghylch y cynnydd mewn prisiau ac a fyddai unrhyw ddarpariaeth ar waith ar gyfer teuluoedd incwm isel. Codwyd pryderon hefyd o ran y lleoedd parcio cyfyngedig a ddarperir yn Rhodfa’r Goedwig. Eglurodd y Swyddog fod gwaith wedi digwydd dros y

blynyddoedd diwethaf i gynyddu nifer y lleoedd parcio sydd ar gael, a gynhaliwyd fel rhan o'r Prosiect Cyllid Ewropeaidd. Mae Rhodfa'r Goedwig bellach yn cynnig 8 maes parcio mewn gwahanol leoliadau ar hyd a lled y Rhodfa. Roedd y Swyddog yn gwerthfawrogi'r pryderon sy'n ymwneud â'r effaith y gallai'r cynnydd mewn prisiau ei chael ar ymwelwyr. Fodd bynnag, er bod cynnydd o 25% yn ymddangos yn uchel o ran canrannau, dim ond £2.00 yw hi i'r rhan fwyaf o ymwelwyr fesul car a fydd yn cyfateb i 50c y pen yn ychwanegol os oes pedwar ymwelydd mewn un car. Mae costau mynediad tebyg i gyfleoedd gwyliau diwrnod arall yn llawer mwy y pen.

Cydnabu'r Arweinydd yr holl gyflawniadau yn Rhodfa'r Goedwig dros y blynyddoedd diwethaf, megis yr ardal chwarae i blant sy'n wych ac sy'n cael defnydd da iawn, yn ogystal â'r llwybrau cerdded a beicio a'r cyfleusterau pod glampio. Fodd bynnag, teimlai fod lle i wella o hyd, o ran y cyfleusterau arlwyo a ddarparwyd.

Cytunodd y Swyddog â sylwadau'r Arweinydd ac eglurodd y bu rhai heriau dros y blynyddoedd diwethaf o ran staffio. Fodd bynnag, sicrhaodd y Cabinet fod gwaith yn cael ei wneud ar welliannau.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog:

1. Cymeradwyo i'r cytundeb presennol gael ei ymestyn am gyfnod o flwyddyn. Dylai hyn sicrhau y gall y ddau barti ganfod yn llawn y cyllid sy'n gysylltiedig â gweithrediad yr atyniad. Cydnabuwyd bod y ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn gyfnod mis mêl a dylai ffigurau o 2023-24 ddarparu tystiolaeth ar sut mae'r rhodfa'n perfformio'n ariannol ar ôl cynnydd cychwynnol o ran diddordeb.

2. Cynnydd yn y pris mynediad o £8 i £10 y car, o £15 i £18.50 ar gyfer bysiau mini ac o £30 i £35 i fysiau. Mae'r prisiau hyn yn cynnwys ffioedd parcio ar feysydd parcio a weithredir gan y Cyngor yng Nghwmcarn fel rhan o'r ffi fynediad. Dylai prisiau tocynnau tymor hefyd godi swm tebyg i £75 am gar, £37.50 am feic modur a £125 ar gyfer bws mini. Mae'r codiadau hyn yn adlewyrchu chwyddiant a bwriedir eu gweithredu o ddechrau tymor 2024 o 1 Ebrill 2024 ymlaen.

## 8. ADOLYGIAD DIOGELWCH B4251 YNYS-DDU I WYLLIE

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet am fesurau diogelwch arfaethedig ychwanegol ar gyfer priffordd B4251 Ynys-ddu i Wyllie a gofynnodd hefyd am gymeradwyaeth y Cabinet i ymgymryd â'r gwaith cysylltiedig.

Nododd y Cabinet, yn dilyn damwain drasig, y cynhaliwyd adolygiad diogelwch ar y ffordd ym mis Mawrth 2020. Nododd yr adolygiad nifer o argymhellion a weithredwyd yn ystod haf 2020 a oedd yn cynnwys gosod wyneb newydd, arwyddion chevron, a lleihau terfynau cyflymder ynghyd â mân faterion cynnal a chadw eraill. Ar ôl cwblhau'r mesurau diogelwch hyn, dechreuodd gwaith sylweddol o dorri coed ym mis Medi 2020 i gael gwared ar "glefyd coed ynn". Roedd cael gwared ar y coed hyn yn agor yr argloddiau a chanfyddiadau o'r newydd o berygl a cheisiadau am System Atal Cerbydau (VRS) ar adegau penodol ar hyd rhan o'r briffordd. Er nad oedd yr adroddiadau diogelwch annibynnol yn argymell gosod VRS neu ffensio, datblygwyd cynlluniau i weld beth y gellid ei ddarparu pe bai'r awdurdod yn dymuno ystyried cynllun VRS nad yw'n cydymffurfio neu ffensys amgen ar hyd y llwybr hwn. Ym mis Chwefror 2022 cymeradwyodd y Cabinet osod ffens ffin dolen gadwyn ar hyd y B4251.

Ar ôl cwblhau mesurau gwella blaenorol, gosod y ffens dolen gadwyn a sylwadau gan aelodau'r ward lleol ac aelodau'r cyhoedd, cytunwyd y byddai adolygiad diogelwch ffordd pellach yn cael ei gynnal yn annibynnol ar werthuso'r gwaith a'r gwelliannau a wnaed hyd yn hyn.

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn mewn ffordd agored a thryloyw ac arweiniodd at gyfarfod ar 15 Mehefin 2023 lle cyfarfu'r holl bartïon perthnasol â Swyddogion y Cyngor, Heddlu Gwent ac awduron yr Adroddiad Diogelwch Annibynnol i adolygu a dadansoddi'r canlyniadau.

Yna cynhaliwyd cyfarfod terfynol gyda thrigolion lleol a Chynghorwyr ar 16 Awst 2023 i gytuno ar y camau gweithredu arfaethedig.

Croesawodd y Cabinet y Cynghorydd Jan Jones (Aelod Ward Lleol) a wahoddwyd i siarad am yr adroddiad. Cydnabuwyd bod y Cynghorydd Jones wedi bod yn gweithio'n agos gyda theulu Laurie Jones a gollodd ei bywyd mewn damwain drasig ar y rhan hon o'r ffordd.

Anerchodd y Cynghorydd Jones y Cabinet gan gyfleu gwerthfawrogiad y teulu, drwy gydol yr ymgynghoriad ac yn ystod yr holl gyfarfodydd, eu bod yn gallu trafod ac egluro eu pryderon, y gwrandawyd arnynt, gwerthfawrogwyd amser ac amynedd y Cyngor, a chroesawyd y mesurau diogelwch ychwanegol a restrwyd yn yr adroddiad. Fodd bynnag, mynegwyd siom na chytunwyd ar y rhwystr damweiniau ac nad oedd y cynigion goleuadau stryd wedi'u cytuno. Eglurodd y Cynghorydd Jones fod y teulu o'r farn nad oedd y ffens gyswllt cadwyn sydd wedi'i gosod yn darparu unrhyw ddiogelwch ychwanegol a mynegodd y Cynghorydd Jones deimlad y teulu hefyd fod y Cyngor yn poeni mwy am ei ôl troed carbon yn hytrach na diogelwch ei ffyrdd. Ond fe wnaeth y Cynghorydd Jones gydnabod mai ychydig iawn o ddamweiniau oedd wedi bod gyda'r nos.

Mynegodd y Cynghorydd Jones a'r Cynghorydd Reed fel Aelodau Ward Lleol, eu gwerthfawrogiad o'r amser a gymerwyd gan Swyddogion i gyfarfod â'r teulu a gwerthfawrogir y mesurau ychwanegol a gynlluniwyd gan y Cynghorydd Jones a'r Cynghorydd Reed (Aelodau Ward Lleol). Fodd bynnag, roeddent hwythau hefyd yn siomedig gyda'r diffyg rhwystrau damweiniau ac nad oedd goleuadau stryd wedi'u cytuno.

Cydnabu'r Cynghorydd Jones fod eu sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a'i fod yn falch o ddull gweithredu a thryloywder y Swyddogion drwy gydol y broses.

Diolchodd yr Arweinydd i'r teulu am weithio'n agos gyda'r Awdurdod ar adeg mor anodd a rhoddwyd sicrwydd bod yr Awdurdod wedi ymrwymo i barhau i adolygu a monitro'r rhan hon o'r ffordd.

Gofynnodd y Cabinet am eglurhad pam nad ystyriwyd bod angen gosod rhwystrau damwain. Eglurodd y Pennaeth Isadeiledd fod pryderon y byddai'r rhwystrau eu hunain yn achosi perygl ychwanegol oherwydd radiws y tro yn y ffordd a safle'r rhwystr. Dywedodd y Swyddog wrth y Cabinet fod terfyn cyflymder o 40mya wedi'i weithredu ar y ffordd.

Nododd y Cabinet fod yr holl ymgyngoreion a'u sylwadau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

Nododd y Cabinet hefyd y bwriedir rhoi mesurau ataliol ychwanegol pellach, megis llinellau cadarn a bolardiau ar waith. Er mai dim ond 5 metr ar wahân oedd angen i'r bolardiau fod, yn dilyn y pryderon a godwyd gan y teulu, roedd y Cyngor wedi gwneud addasiadau a'u gosod 3 metr ar wahân ar radiws y tro.

Yn dilyn ymholiad gan y Cabinet, rhoddodd y Swyddog sicrwydd y byddai'r materion cynnal a chadw a nodwyd yn yr Adolygiad Annibynnol yn cael eu codi gan broses arolygu mewnol y Cyngor gan fod y ffordd yn llwybr strategol felly cynhelir arolygiadau bob mis.

Gofynnwyd am eglurhad pam nad yw'r ffordd yn cael ei hystyried yn fan drwg am ddamweiniau. Eglurodd y Swyddog, er bod damweiniau, na fu unrhyw glystyrau damweiniau na ffactorau cyffredin mewn un lleoliad ac maent wedi digwydd ar wahanol adegau ar hyd y ffordd a oedd yn cynnwys rhannau syth y briffordd.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn

cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet, am resymau a gynhwysir yn adroddiad y Swyddogion, wedi ystyried cynnwys yr adroddiad ac yn cymeradwyo casgliad yr adolygiad diogelwch ffyrdd ychwanegol nad oes gan y B4251 rhwng Ynys-ddu a Wyllie unrhyw faterion diogelwch ffyrdd o bwys ac y dylid gweithredu'r mân welliannau a awgrymwyd a nodwyd (sy'n gyffredinol yn waith cynnal a chadw neu'n gysylltiedig â gwaith ataliol) fel rhan o amserlenni cynnal a chadw parhaus y priffyrdd neu fel y disgrifir yn Nhabl 1 ym mharagraff 5.4 yr adroddiad. Bydd y gwelliannau hyn hefyd yn cael eu monitro yn erbyn unrhyw ddata damweiniau a gofnodwyd a dderbyniwyd dros y blynyddoedd nesaf.

## 9. PROSES HALOGI AILGYLCHU

Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a oedd yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cynnig i fireinio a gwella dull presennol y Cyngor o ymgysylltu â'r cyhoedd sydd wedi'i dargedu'n benodol at halogiad ailgylchu ar ochr y ffordd.

Darparwyd diweddariad ynghylch cynnydd y Strategaeth Wastraff y bwriedir iddi fod yn barod ar gyfer ymgynghoriad yn gynnar yn 2024.

Nododd y Cabinet agwedd addysgol yr ymarferiad a chydnabu'r wybodaeth a ddarparwyd yn yr adroddiad sy'n egluro'r broses a'r nifer o ymweliadau cyn i ddirwy gael ei rhoi. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith bod y niferoedd yn disgyn yn ddramatig drwy'r gwahanol gamau sy'n nodi nad yw hwn yn ymarfer gwneud arian mewn unrhyw ffordd. Nodwyd ymhellach y gallai tua 10 Rhybudd Gorfodi fod wedi cael eu cyhoeddi yn dilyn monitro ac ymgysylltu diweddar yng nghyd-destun oddeutu 75,000 eiddo.

Gofynnodd y Cabinet am y wybodaeth ddiweddaraf am statws recriwtio'r staff newydd, a fydd yn gweithredu'r broses newydd. Cadarnhaodd y Prif Swyddog Rheoli Gwastraff fod Caerffili ar hyn o bryd wedi recriwtio 9 o Gynorthwywyr Canolfan Ailgylchu i Gartrefi, 7 Gweithiwr Casglu, 3 Swyddog Technegol, Swyddog Iechyd a Diogelwch a 6 Chynghorydd Ailgylchu, a fydd yn gyfrifol am gnocio drysau a chynghori preswylwyr ynghylch sut i ailgylchu'n fwy effeithiol.

Mewn ymateb i ymholiad, cadarnhaodd y Pennaeth Isadeiledd, ers i'r broses addysg uwch gael ei gweithredu, bu arwyddion bod y lefelau halogi wedi gostwng tua 5%, sy'n gadarnhaol iawn.

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi’u cynnwys yn Adroddiad y Swyddog:

1. Cymeradwyo gweithredu proses addysg ac ymgysylltu uwch sy'n ymgorffori'r opsiwn i gyflwyno hysbysiadau cyfreithiol ac, mewn rhai amgylchiadau, lle bo'n angenrheidiol cymeradwyo cyhoeddi cosbau penodedig i droseddwyr parhaus sy'n ymwneud â halogi ailgylchu.

2. Cymeradwyo’r cynnig i'r Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPN) gael eu gosod ar £70 gan leihau i £35 os caiff ei dalu o fewn 14 diwrnod.

3. Cymeradwyo ymgyrch gyfathrebu benodol cyn gweithredu'r broses uwch.

## 10. PRAWF BUDD Y CYHOEDD

Ystyriodd yr Aelodau Brawf Budd y Cyhoedd, a daethpwyd i’r casgliad, ar y cyfan, bod budd y cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn gorbwyso buddion y cyhoedd o ran datgelu gwybodaeth a:-

PENDERFYNWYD yn unol ag Adran 100(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 y byddai'r cyhoedd yn cael eu heithrio o weddill y cyfarfod, oherwydd y tebygolrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu iddynt fel y nodwyd ym mharagraffau 14 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 11. NESS TAR A CHYN-SAFLEOEDD GWAITH BRICS WERNDDU, CAERFFILI - ADRODDIAD OPSIYNAU CYFLAWNI

Yn dilyn ystyriaeth a thrafodaeth, cynigiwyd ac eiliwyd bod yr argymhellion yn yr adroddiad yn cael eu cymeradwyo a thrwy Microsoft Forms cytunwyd yn unfrydol ar hyn.

PENDERFYNWYD, am y rhesymau a oedd wedi'u cynnwys yn adroddiad y Swyddog, cymeradwyo'r argymhellion ym mharagraff 3.1 (i) i (iv).

Daeth y cyfarfod i ben am 14.22 pm.

Wedi'i gymeradwyo a'i lofnodi fel cofnod cywir yn amodol ar unrhyw gywiriadau a wneir yn y cyfarfod a gynhelir ar 15 Tachwedd 2023.

____________________

CADEIRYDD